Prosiect Dalgylch Llys y Frân

Dechreuwyd y gwaith ar Brosiect Dalgylch Llys y Frân ym mis Gorffennaf. Mae'r fenter newydd hon, dan arweiniad Afonydd Cymru mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro, yn bartneriaeth gydweithredol arbrofol gyda Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r prosiect yn seiliedig ar ddalgylch Afon Syfynwy, llednant Dwyrain Cleddau, sy'n draenio i Gronfeydd Dŵr Rosebush a Llys y Frân ac mae yn Ardal Cadwraeth Arbennig Dwyrain Afon Cleddau – sy'n canolbwyntio ar yr ardal o darddiad Afon Syfynwy i'r argae yn Llys y Frân.

Bu Cronfa Ddŵr Llys y Frân yn dueddol o gael gordyfiant o Algâu Gwyrdd-las yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bwriad y prosiect yw cael dealltwriaeth well o ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd dŵr a chyfanswm y maeth yn y dalgylch o ran defnydd tir, edrych ar weithgarwch megis gweithrediadau gwaith coed, mewnbynnau carthion a ffermio. Gobeithir y bydd y fenter hon yn darparu mesurau cadarnhaol i helpu i wella ansawdd dŵr, lleihau'r risg o ddigwyddiadau llygredd a helpu i ennill statws cadwraeth ffafriol.



Algâu Gwyrdd-las yng Nghronfa Ddŵr Llys y Frân
Llun: Cyfoeth Naturiol Cymru

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP

PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

Cyfrol 10 Rhifyn 3
Hydref / Gaef 2013

Yn y rhifyn hwn

Prosiect Dalgylch Llys y Frân
Tudalennau 1 & 2

Draenogod yn Sir Benfro
Tudalennau 2 - 4

Achub Cynefin Gweision y Neidr Prin
Tudalennau 4 - 5

Pysgodyn Prin wedi'i Ddal yn Aberdaugleddau
Tudalennau 5 - 6


Ymddiriedolaeth Natur yn Cefnogi Gwneuthurwr Siarcol Lleol
Tudalennau 6 - 7

Cadwch Afael ar eich Tacl!
Tudalennau 8 - 9

Digwyddiadau Bioamrywiaeth
Tudalennau 10 - 11

Manylion Cysylltu
Tudalen 12

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551



Afon Syfynwy i fyny'r afon o Lys y Frân.
Llun: Ro Rogers

Bydd y prosiect yn cynnwys gosod sondiau i fonitro ansawdd dŵr. Bydd monitro biolegol anifeiliaid di-asgwrn cefn mewn safleoedd penodol yn darparu gwybodaeth gefnogol am statws yr afon a bydd rhaglen o arolygon afonydd ar droed yn gwerthuso cyflwr coridor yr afon ac yn nodi ffactorau sy'n effeithio'n wael arno.

Gwahoddir tirfeddianwyr yn y dalgylch i fynd i weithdy fferm a'r gobaith yw y bydd nifer o ffermwyr yn manteisio ar y cyfle i gael samplu eu pridd, cynlluniau rheoli maeth a sesiwn un i un am ddim gydag argonomegydd a fydd yn rhoi cyngor a chymorth ymarferol ynghylch problemau rheoli tir.

Trwy'r gwaith hwn, y gobaith yw adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliannau i gynefinoedd ac isadeileddau er mwyn o bosibl eu darparu trwy gyfleoedd ariannu yn y dyfodol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y prosiect trwy anfon e-bost at Swyddog y Prosiect Dalgylch, Ro Rogers: ro@afonyddcymru.org

Mae Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro bob amser yn awyddus i recriwtio gwirfoddolwyr newydd. Os oes gennych ddiddordeb yn ein helpu â'n gwaith prosiect i wella amgylchedd eich afon leol, lle gallech gael hyfforddiant i ddatblygu eich sgiliau a phrofiad a chwrdd â phobl eraill o'r un anian, ewch i http://www.pembsrt.org/how-you-can-help/ neu cysylltwch â ni ar 01437 783070, e-bost enquiries@pembsrt.org

Ro Rogers
Afonydd Cymru / Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro

Draenogod yn Sir Benfro

Mae'r draenog Ewropeaidd neu'r *Erinaceus europaeus*, yn annwyl, mewn perygl ac mae'n bwyta pla mewn gerddi. Mae wedi'i awgrymu **pe byddem yn achub y draenog, byddem yn achub y byd**. Nid yw hyn mor annhebygol ac y mae'n ymddangos, gan fod y rhan fwyaf o'r problemau sy'n effeithio ar ddraenogod yn amgylcheddol ac felly cânt eu rhannu â nifer o rywogaethau eraill. Golyga colli neu chwalu eu cynefin fod rhaid i ddraenogod deithio rhwng safleoedd magu a bwydo, gan yn aml groesi ffyrdd i wneud hynny. Gall ysglyfaethu cynyddol gan ysglyfaethwyr domestig megis cathod a chŵn hefyd fod yn broblem. Gall darparu lleoedd nythu addas, cynnes a sych yn agos at adnoddau bwyd leihau marwolaeth sy'n ymwneud ag aeafgysgu a lleihau'r angen i ddraenogod deithio yn ystod eu teithiau chwilota ac felly lleihau'r effaith y gall traffig ffyrdd ac ysglyfaethwyr ei chael arnynt.



Draenog mewn ardd Sir Benfro
Llun: Trevor Theobald

Cyn hir, bydd draenogod yn paratoi i aeafgysgu, felly mae'n amser da i greu gwagle iddynt yn eich gardd. Bydd fflap cathod yn y ffens, panel wedi torri, bwlch o dan gât neu iorwg dros y wal oll yn ddigon i helpu i roi mynediad i'r draenog i'ch gardd. Mae pentyrrau o ddail, llwyni sy'n crogi neu berthi i gyd yn lleoedd da i nythu. Gallwch adael blychau nythu arbennig wedi'u stwffio â gwair neu mae gorsaf fwydo hyd yn oed yn well. Gallai hyn fod yn flwch storio plastig petryal, tua 60cm o hyd gyda chaead. Torrwch dwll yn y pen cul ddigon mawr i ddraenog ond yn ddigon bach i gadw cath allan. Rhowch y bwyd cyn belled o'r agoriad â phosibl, allan o gyrraedd pawennau cathod. Gall y bwyd fod yn fwyd cigog ci neu gath, bisgedi cigog i gathod, cynrhon y blawd, syltanas, cnau daear heb eu halltu wedi'u torri'n fân, ac amrywiaeth o ffrwythau megis banana a mefus yn ogystal â phowlen o ddŵr. Cofiwch fod draenogod yn anifeiliaid nosol felly rhowch y bwyd allan wrth iddi nosi.

Gall unrhyw un sy'n dymuno denu'r ffrindiau bach defnyddiol hyn i'w gardd wneud hynny'n hawdd iawn ond dylech yn gyntaf wneud eich gardd yn ddiogel.

- PEIDIWCH â defnyddio pelenni malwod du, hyd yn oed y rhai "diogel". Bydd y draenog yn bwyta'r falwen ddu wedi'i gwenwyno.
- Mae pentwr compost yn darparu bwyd a chynhesrwydd ond cymerwch ofal wrth ei fforchio.
- Edrychwch cyn i chi strimio neu ladd gwair. Mae nifer o anifeiliaid bach yn cuddio mewn glaswellt hir ac mae anaf gan strimiwr yn un o'r anafiadau gwaethaf y gallwch feddwl amdano. Strimiwch ddim is na 30cm o'r ddaear, yna archwiliwch cyn mynd yn is.
- Cynnwch goelcerthi cyn gynted â'ch bod wedi'u gosod neu archwiliwch nhw'n drylwyr am anifeiliaid.
- Mae angen llethr neu step ar byllau er mwyn i'r draenogod gael dringo allan, mae angen i rwydi fod 30cm oddi ar y ddaear (gan gynnwys rhwydi tenis a phêl -droed), a gorchuddiwch draeniau.

Serch hynny, nid yw'n newyddion drwg i gyd i ddraenogod. Mae Hogsbyty Sir Benfro wedi adrodd am lawer iawn llai o achosion o ddraenogod yn dioddef o lyngyr yr ysgyfaint eleni. Gallai hyn fod oherwydd i'r gwanwyn oer a'r haf cynnar poeth a sych gadw niferoedd y malwod du i lawr gan olygu bod diet y draenog eleni yn cynnwys cyfran llawer llai o falwod du. Malwod du yw prif gludwyr llyngyr yr ysgyfaint i ddraenogod, felly gallai'r draenogod fod wedi elwa ar brinder malwod du!

Beryl Steadman
Hogsbyty Sir Benfro
wobblyhogs@gmail.com
01437 779461

Achub Cynefin Gweision y Neidr Prin

Mae ardal gynefin y Fursen Ddeheuol brin wedi'i hachub diolch i ymdrech cyfun nifer o sefydliadau cadwraeth, y tirfeddiannwr a ffermwyr lleol. Mae'r Fursen Ddeheuol brin mewn perygl o ddiflannu'n gyfan gwbl yn y rhan hon o Ardal Cadwraeth Arbennig y Preseli yn Sir Benfro sef un o'i chadarnleoedd traddodiadol yn Ewrop. Mae prosiectau fel hyn sy'n cynnal ei chynefin yn hanfodol i'r rhywogaeth oroesi yn yr ardal.

Mae'r prosiect partneriaeth rhwng y British Dragonfly Society (BDS), Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro wedi diogelu cynefin arbenigol ar safle o'r enw Cornel Pensarn. Ariannwyd y prosiect gan Amgylchedd Cymru ac fe'i cefnogwyd gan y tirfeddianwyr (Barwniaeth Cemais) yn ogystal â ffermwyr lleol y mae eu hanifeiliaid yn pori'r ardal helaeth hon o dir comin.

Eglura Jon Hudson, Uwch Swyddog Cadwraeth Cyfoeth Naturiol Cymru 'mae hon yn ardal a chanddi nifer o nodweddion



Mursen Ddeheuol Gwryw.
Llun: Dave Smallshire.

gwlyptir arbenigol gan gynnwys nentydd, corsydd, rhuthrau dŵr a phyllau. Dyma gydlifiad nifer o nentydd ac mae'n ardal fynediad bwysig i dda byw, porwyr a cherddwyd i'r tir comin'. Roedd y cynefin mewn perygl gan ei bod yn fwyfwy anodd cael mynediad i'r Tir Comin ac roedd y nentydd mewn perygl o gael eu blocio. Mae'r gwaith hanfodol hwn wedi creu mynediad clir i'r Tir Comin i gerddwyd a phorwyr ac wedi sicrhau y cynhelir nodweddion sensitif y gwlyptir.

Bydd y prosiect yn sicrhau y cynhelir i'r dyfodol un o'r ardaloedd bach ar draws y Tir Comin lle ceir y Fursen Ddeheuol brin. Mae'r rhywogaeth hon yn brin trwy gydol Ewrop a chaiff ei hamddiffyn gan gyfraith y DU ac Ewrop. Mae gan y fursen las a du maint matsien ofynion cynefin penodol iawn ac mae ar hyn o bryd mewn perygl oherwydd newidiadau i reoli tir. Mae prosiectau fel hyn yn hanfodol os ydym am barhau i weld y rhywogaeth hon yn Sir Benfro.

Mae Cornel Pensarn hefyd yn gartref i'r Fursen Gynffon Las Brin sy'n agos at fod dan fygythiad. Golyga'r prosiect hefyd y cynhelir y cynefin a aflonyddwyd sy'n ofynnol i'r Fursen Gynffon Las Brin trwy gyfeirio da byw ar draws ardal o wlyptir a ffafrir gan y rhywogaeth hon. Mae'n byw ac yn magu mewn mannau mwdlyd heb lawer o lystyfiant a dŵr bas. Mae hefyd nifer o rywogaethau eraill o weision y neidr yn yr ardal fach hon ac ystyrir ei bod yn cynnwys un o'r poblogaethau gweision y neidr pwysicaf yn Sir Benfro.

Mae angen rhagor o brosiectau o'r math hwn i sicrhau y bydd y Fursen Ddeheuol yn goroesi yn Sir Benfro a heb y gwaith caled gan y BDS, APCAP a Chyfoeth Naturiol Cymru, cymorth Amgylchedd Cymru a Llywodraeth Cymru, tirfeddianwyr a ffermwyr lleol, ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl.

BDS
British Dragonfly Society

Claire Install
Swyddog Cadwraeth, British Dragonfly Society

Diwrnod Bwydo'r Adar Cas-lai

Os ydych yn mwynhau bywyd gwyllt, yna beth am dreulio 26 Hydref rhwng 2:00pm a 5:00pm yn y digwyddiad hwn? Caiff y digwyddiad ei gynnal gan Gymdeithas Amgylcheddol Cas-lai yn ei Choetir Cymunedol, ac mae'n cynnwys arddangosfeydd, gweithgareddau a chystadlaethau ar gyfer pob oedran gan ganolbwyntio ar fwydo adar yn y gaeaf ond mae hefyd yn cynnwys nifer o agweddau eraill ar fywyd gwyllt.
Ar wahân i syniadau bwydo diddorol, ceir y cyfle i greu blychau nythu i adar, pryfaid ac ystlumod, chwilio am bryfaid a draenogod, ffwng, nythod adar, gwyfynod a llawer rhagor i ddenu'ch sylw. Mae'r digwyddiad blynyddol hwn a gaiff ei gefnogi gan nifer o sefydliadau lleol bellach yn ei bedwaredd flwyddyn gyda chyngor arbenigol ar gael.

Dave Baster.
Cymdeithas Amgylcheddol Cas-lai

Pysgodyn Prin wedi'i Ddal yn Aberdaugleddau

Gwnaeth pysgodyn prin iawn achosi cyffro mawr ymysg pysgotwyr yn Hobbs Point, Dyfrffordd Aberdaugleddau ddydd Gwener 2 Awst. Gwnaeth bechgyn lleol ddal y stwrsiwn trwy ddefnyddio gwialen fach ac abwyd selsig, ond nid dyma'r cranc yr oeddent wedi gobeithio'i ddal! Roedd pawb wedi'u syfrdanu wrth sylweddoli ei bod yn debygol mai'r 'pysgodyn brenhinol' sydd mewn perygl mawr ar hyn o bryd oedd y pysgodyn rhyfedd yr olwg hwn (sydd un cam i ffwrdd o ddiflannu'n gyfan gwbl yn y gwyllt).

Dywedodd swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Morol Sir Benfro Sue Burton, “Mae’n hyfryd bod pysgodyn mor rhyfeddol wedi’i ddarganfod – mae hyn yn dangos sut y gall y môr beri syndod i ni drwy’r amser. Mae Dyfrffordd Aberdaugleddau’n rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig Morol Sir Benfro, a ddynodwyd am ei bywyd gwyllt morol o Bwysigrwydd Ewropeaidd. Mae hyn felly’n ganfyddiad pwysig iawn.”

Roedd swyddog cadwraeth morol lleol Cyfoeth Naturiol Cymru, Anne Bunker, yn gallu dweud bod y pysgodyn naill ai’n stwrsiwn Ewropeaidd neu’n stwrsiwn Môr yr Iwerydd (y rhywogaeth a ddaliwyd ym Mae Abertawe yn 2004). Dywedodd Anne “Dyma’r unig gofnod swyddogol o stwrsiwn yn cael ei ddal yn Sir Benfro y gwn i amdano.”

Er ei fod tua metr o hyd, roedd yn eithaf bach am stwrsiwn. Gall benyw gyrraedd 3.5 metr a byw hyd at 100 oed. Paratoir cafiâr, y danteithfwyd moeth, trwy halltu wyau stwrsiwn heb eu dodwy. Yn anffodus, mae gorbysgota, llygru aberoedd ac adeiladu lociau a choredau sy’n stopio mudo i fyny afonydd i fannau claddu wyau wedi peri i’r stwrsiwn fod yn un o’r rhywogaethau sydd fwyaf mewn perygl yn Ewrop.

Os daw rhagor o ffotograffau o’r pysgodyn hwn ar gael, gallant helpu i nodi pa rywogaeth o stwrsiwn a ddaliwyd, ond weithiau dadansoddi’r DNA yw’r unig ffordd o wahaniaethu rhyngddynt. Byddai Anne (01646 624000) neu Sue (01646 696108) yn falch o gael unrhyw ffotograffau neu gofnodion pellach.



Stwrsiwn
Llun: Levi Lloyd

Os byddwch yn dal Stwrsiwn ar ddamwain, dilynwch y pedwar cam canlynol:

- Nodwch y dyddiad y gwnaethoch ei ddal, maint a phwysau’r pysgodyn a’r lleoliad (GPS neu barth);
- Os oes ganddo nod, gadewch y nod yno a nodwch y rhif;
- Rhyddhewch y pysgodyn yn ofalus;
- Rhowch wybod eich bod wedi’i ddal yn ddamweiniol a rhowch eich manylion i Jim Ellis, Canolfan yr Amgylchedd, Canolfan Gwyddorau’r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas), E-bost: jim.ellis@cefas.co.uk (Gwefan: http://www.cefas.co.uk/sturgeon), neu un o’r cysylltiadau yn yr erthygl hon.

Sue Burton
Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Morol Sir Benfro
Sue.burton@mhpa.co.uk

Ymddiriedolaeth Natur yn Cefnogi Gwneuthurwr Siarcol Lleol

Er bod bellach nifer fawr o ffynonellau tanwydd gwahanol ar gael, mae’r sgìl traddodiadol o greu siarcol yn dal yn fyw mewn nifer o goetiroedd ledled y DU. Mae gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru hanes da o gynhyrchu siarcol o’i gwarchodfeydd yn y Gŵyr, lle mae tîm coetir ymroddedig yn rheoli safleoedd coetir yn y rhan hon o Gymru. Rheolir y safleoedd hyn yn fwy na dim am y cynefinoedd a’r rhywogaethau maent yn eu cefnogi ond wrth i goed gael eu cwympo trwy weithgarwch megis coedlannu, gellir cynhyrchu adnodd gwerthadwy megis siarcol i helpu i gynhyrchu incwm ar gyfer cyfarwyddiadau rheoli pellach.

Un o warchodfeydd coetir gorau Sir Benfro yw Coedwig Pengelli ychydig i’r gogledd o Gasnewydd. Mae’r safle 65 hectar yn rhan o’r bloc mwyaf o goetir derw hynafol wedi’i goedlannu yng Nghymru ac mae’n cefnogi



rhywogaethau allweddol megis y Pathew a'r ystlum Barbastél. Mae prosiectau rheoli diweddar a weithredwyd trwy'r cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth Natur i greu nifer o lennyrch tua 0.2 hectar o ran maint i annog tyfiant newydd a darparu amrywiaeth o strwythurau yng nghanopi'r coetir. Mae llawer o'r coed mwy a gwympwyd wedi'u tynnu o'r safle a'u gwerthu'n lleol tra mae'r hydoedd llai yn adnodd sydd bellach yn cael ei ddefnyddio gan wneuthurwr siarcol lleol. Wrth ddefnyddio math o losgwr siarcol sef retórt (a dim ond llond llaw ohonynt sydd yn y DU) sy'n sownd wrth drelar ac felly gellir ei gludo'n hawdd o un safle i'r llall, mae'n helpu i reoli nifer o goetiroedd yn y sir. Mae'r Ymddiriedolaeth Natur bob amser yn awyddus i gefnogi sgiliau a chrefftau traddodiadol, yn enwedig pan eu bod o fudd i gadwraeth a rheolaeth ei safleoedd a'r amgylchedd ehangach. Mae'n wych gweld sgìl traddodiadol megis creu siarcol yn dychwelyd i Bengelli lle gwelir olion hen odynau siarcol ar hyd a lled y warchodfa. Er bod y dechnoleg ar gyfer ei gynhyrchu wedi newid, mae gweld llif cyson o fwg yn dod o'r goedwig yn hudolus, yn enwedig pan rydych yn gwybod nad yw'n ddim i boeni amdano!

I gael rhagor o wybodaeth, gweler: http://www.welshwildlife.org/wildlife-trust-supports-local-charcoal-maker/

Nathan Walton
Swyddog Sir Benfro yr Ymddiriedolaeth Natur

Play Your Part for Nature
Protecting Wildlife for the Future

Cadwch Afael ar eich Tacl!

Mae pysgotwyr yn hoff iawn o Sir Benfro ond mae'r gwaith diweddar o lanhau tanddwr gan y grŵp plymio gwirfoddol Neptune's Army of Rubbish Cleaners (NARC), wedi darganfod bod pysgotwyr, sy'n aml yn amgylcheddwyr ac yn ymddiddori'n fawr yn y môr eu hunain yn gadael llinynnau wedi'u rhwygo, tacl coll, pwysau pysgota a llinynnau monoffilament ar draethau, sarnau a brigiadau creigiog.

Mae'r sbwriel hwn, weithiau'n fwriadol ond yn aml yn ddamweiniol, yn effeithio'n wael iawn ar fywyd gwyllt a chynefinoedd – gall crancod gael eu clymu i waelod y môr a gall môr-wyntyllau gael eu rhwymo mewn llinyn a allai gymryd dros 600 mlynedd i chwalu!

Bwriad prosiect Cadwch Afael ar eich Tacl y Gymdeithas Cadwraeth Forol yw annog pysgotwyr i roi eu sbwriel pysgota mewn biniau a ddarperir yn arbennig mewn ardaloedd pysgota penodol ledled Sir Benfro (gweler y map).



Trwy ddilyn ein hawgrymiadau da, gall pysgotwyr môr newydd helpu i leihau faint o dacl a gollir yn y lle cyntaf:

- Defnyddiwch linyn uwchben a llinyn torri'r straen 30 pwys wrth bysgota gwely'r môr neu bysgota â phlu i'ch galluogi i dynnu'n rhydd rhag rhwystrau
- Defnyddiwch fachau a fydd yn sythu a llinynnau bioddiraddadwy
- Wrth bysgota gwely'r môr, defnyddiwch bwysau gafael gwifren hir iawn a bwrw'r llinyn dros 50 metr i ganfod gwaelod tywodlyd

Lleoliad Biniau Pysgota © MCS



1.Whitesands Beach
2.Martins Haven
3.Hobbs Point
4.Broadhaven South
5.Stackpole Quay
6.Freshwater East
7.Manorbier
8.Tenby South Beach
9.Tenby North Pier
10.Saundersfoot Pier

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

- Os teimlwch y gwaelod neu rwyg, riliwch i mewn yn gyflymach a chofiwch bob amser i gynyddu cyflymder eich rilio wrth i chi agosáu at y lan
- Pysgotwch pan fo'r dŵr yn uchel yn unig i leihau rhwygau
- Wrth droelli neu bysgota â phlu defnyddiwch bwysau ysgafn, 2-3 owns ac osgowch linynnau gafael

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar ein gwefan: http://www.mcsuk.org/wales/Working%20with%20you/Working%20with%20you/Hang%20on%20to%20your%20tackle%20campaign

Os oes gennych ddiddordeb mewn dechrau cynllun tebyg yn eich ardal, cysylltwch â ni: anglingbins@mcsuk.org

Emma Cunningham
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol

Bioblits Ffwngaidd Orielton

Mae Canolfan Faes Orielton yn cynnal ei digwyddiad Bioblitz Ffwngaidd cyntaf. Un diwrnod i ddarganfod, nodi a chofnodi cymaint o rywogaethau o ffwng â phosibl ar Ystâd Orielton ac o'i hamgylch. Mae'r digwyddiad yn cyd-fynd â digwyddiadau tebyg ar draws Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin i ddathlu Diwrnod Ffwng y DU ar 13 Hydref 2013. Mae rhagor o fanylion ar gael yma: http://www.ukfungusday.co.uk/

Bydd arbenigwyr lleol a phobl sy'n ymddiddori'n fawr yn y maes yno wrth law i



Scarlet Waxcap
Llun: David Harries

helpu. Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar amrywiaeth ffwng yr ystâd ond yng ngwir natur digwyddiad Bioblits byddwn yn cofnodi pethau a welwn o bob maes natur arall.

Bydd hefyd sesiynau wedi'u hanelu at blant yn archwilio amrywiaeth coedwigoedd Orielton mewn ffyrdd cyffrous a llawn hwyl.

Mae llety ar gael ar gyfer y nos Wener. Cynhelir y digwyddiad ddydd Sadwrn 19 Hydref 2013 10.30am-5pm

I archebu lle ac i gael rhagor o fanylion, cysylltwch ag:
admin.or@field-studies-council.org
01646 623920

Ant Rogers
Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth



Digwyddiadau Bioamrywiaeth
Medi / Hydref 2013

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
04/09/13	Taith gerdded dywysedig, Canolfan Natur Cymru, Cilgerran 14:00 – 16:00	Taith gerdded dywysedig wythnosol gyda'r parcmon preswyl Howard Jones	01239 621600
09/09/13	Bywyd yn y Môr – Taith gerdded dywysedig yn Nhyddewi 10:00 – 16:00	Boed trwy hedfan neu nofio, mae nifer o greaduriaid yn ymweld ag Arfordir Sir Benfro. Bwriad y teithiau cerdded hyn yw rhoi'r cliwiau i chi, fel y gallwch adnabod popeth o lamhidydd i wylanwydd ychydig yn haws. Mae archebu lle yn hanfodol	01834 845040
17/09/13	Trafod Coed	Sgwrs min nos Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru gan barcmon yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Jim Light. 7.30pm yn Nhŷ Foundry, Penfro.	Cysylltwch â Nikki Anderson: pembrokenikki@hotmail.co.uk
18/09/13	Taith gerdded dywysedig, Canolfan Natur Cymru, Cilgerran 14:00 – 16:00	Taith gerdded dywysedig wythnosol gyda'r parcmon preswyl Howard Jones	01239 621600
23/09/13	Bywyd yn y Môr – Taith gerdded dywysedig yn Abergwaun 10:00 – 16:00	Boed trwy hedfan neu nofio, mae nifer o greaduriaid yn ymweld ag Arfordir Sir Benfro. Bwriad y teithiau cerdded hyn yw rhoi'r cliwiau i chi, fel y gallwch adnabod popeth o lamhidydd i wylanwydd ychydig yn haws. Mae archebu lle yn hanfodol	01834 845040
02/10/13	Taith gerdded dywysedig, Canolfan Natur Cymru, Cilgerran 14:00 – 16:00	Taith gerdded dywysedig wythnosol gyda'r parcmon preswyl Howard Jones	01239 621600
02/10/13	Taith Gerdded Cerddwyr Aberteifi – Canolfan Natur, Cilgerran	Taith gerdded hawdd 3 milltir a the prynhawn yng Nghanolfan Natur Cymru. Cyfarfod: Stryd yr Orsaf, Aberteifi. Cyfeirnod grid SN179457.	01239 710544
16/10/13	Taith gerdded dywysedig, Canolfan Natur Cymru, Cilgerran 14:00 – 16:00	Taith gerdded dywysedig wythnosol gyda'r parcmon preswyl Howard Jones	01239 621600
19/10/13	Bioblits Ffwngaidd Orielton	Un diwrnod i ddarganfod, nodi a chofnodi cymaint o rywogaethau o ffwng â phosibl ar Ystâd Orielton ac o'i hamgylch. Bydd arbenigwyr lleol a phobl sy'n ymddiddori'n fawr yn y maes yno wrth law i helpu.	admin.or@field-studies-council.org 01646 623920

Digwyddiadau Bioamrywiaeth Hydref / Rhagfer 2013

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
26/10/13	Diwrnod 'Bwydo'r Adar' Cas-lai	14:00 - 17:00 yng Nghoetir Cymunedol Cas-lai. Hwyl i oedolion a phlant!	Dave Baster. 01437 710656
28/10/13	Anturiaethau Coetiroedd Gwyllt – Gardd Coetir Colby 11:00 – 15:00	Dewch i weld bywyd gwyllt y coetir yn paratoi ar gyfer y gaeaf yn ein gweithgareddau i'r teulu.	01834 811885
29/10/13	Anturiaethau Coetiroedd Gwyllt – Gardd Coetir Colby 11:00 – 15:00	Dewch i weld bywyd gwyllt y coetir yn paratoi ar gyfer y gaeaf yn ein gweithgareddau i'r teulu.	01834 811885
30/10/13	Anturiaethau Coetiroedd Gwyllt – Gardd Coetir Colby 11:00 – 15:00	Dewch i weld bywyd gwyllt y coetir yn paratoi ar gyfer y gaeaf yn ein gweithgareddau i'r teulu.	01834 811885
30/10/13	Taith gerdded dywysedig, Canolfan Natur Cymru, Cilgerran 14:00 – 16:00	Taith gerdded dywysedig wythnosol gyda'r parcmon preswyl Howard Jones	01239 621600
13/11/13	Taith gerdded dywysedig, Canolfan Natur Cymru, Cilgerran 14:00 – 16:00	Taith gerdded dywysedig wythnosol gyda'r parcmon preswyl Howard Jones	01239 621600
19/11/13	Ein Hynysoedd yn Sir Benfro	Sgwrs min nos Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru gan Steve Sutcliffe, cyn warden ynys. 7.30pm yn Nhŷ Foundry, Penfro.	Cysylltwch â Nikki Anderson: pembrokenikki@hotmail.co.uk
27/11/13	Taith gerdded dywysedig, Canolfan Natur Cymru, Cilgerran 14:00 – 16:00	Taith gerdded dywysedig wythnosol gyda'r parcmon preswyl Howard Jones	01239 621600
01/12/13	Cyfrif y Brithribin Brown	Cyfarfod yn y maes parcio am 10.00am Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig West Williamston. Mae'n ddigwyddiad ar y cyd rhwng yr Ymddiriedolaeth Natur a Butterfly Conservation.	Cysylltwch â Nikki Anderson: pembrokenikki@hotmail.co.uk
11/12/13	Taith gerdded dywysedig, Canolfan Natur Cymru, Cilgerran 14:00 – 16:00	Taith gerdded dywysedig wythnosol gyda'r parcmon preswyl Howard Jones	01239 621600

Cylchlythyrau Bioamrywiaeth

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PBSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PBSB

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth,** Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Bioamrywiaeth Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PBSB

Cymdeithas y Tirfeddianwyr	
Undeb Amaethwyr Cymru	**Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro**
Grwp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwyllt	**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
Cadwch Gymru'n Daclys	**Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu**
MANOR HOUSE Wildlife Park	**Ymddiriedolaeth y Tywysog - Cymru**
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru	**Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar**
Cyfoeth Naturiol Cymru	**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
Cymdeithas Gymunedol Gyfyngedig 21C Sir Benfro	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyngor Sir Penfro	**Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru**